DECHRAU'N DDA
STARTING WELL

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

**Rhagfyr 2021**



## Gwybodaeth am Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

**Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn helpu pobl i fyw eu bywydau gorau yn eu cartrefi a'u cymunedau.**

**Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, tai a'r trydydd sector i drawsnewid gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn, ar yr amser iawn, yn y lle iawn.**

**Rydym yn gwneud hyn oherwydd gallwn ddarparu canlyniadau gwell i bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro trwy weithio gyda'n gilydd.**

## Gwybodaeth am y Bartneriaeth Dechrau'n Dda

**Mae ein Partneriaeth Dechrau'n Dda yn dod â Chynghorwyr a phobl sy'n arwain gwasanaethau iechyd plant, gofal cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector at ei gilydd ar draws y rhanbarth. Rydym eisiau gwella a, lle bo'n angenrheidiol, trawsnewid gwasanaethau yng Nghaerdydd a'r Fro ac rydym yn canolbwyntio ar y canlynol ar hyn o bryd:**

- **Gweithredu dull ysgol gyfan, lle mae gan bawb ran i'w chwarae i gefnogi iechyd a lles babanod, plant a phobl ifanc**
- **Creu fframwaith rhanbarthol sy'n nodi safon ar gyfer darparu gwasanaethau y gellir eu teilwra a'u defnyddio'n lleol**
- **Sicrhau bod dull cydgysylltiedig o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc cyn i'w hanghenion gynyddu, ond sydd hefyd yn cynnig y cymorth iawn i blant mewn argyfwng**
- **Creu adnoddau rhanbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth**
- **Gwella cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol**

## Model Integredig; Diweddariad Iechyd a Lles Emosiynol Babanod, Plant a Phobl Ifanc

**Mae plant a phobl ifanc a'u teuluoedd/rhoddwyr gofal wedi dweud wrthym fod angen i wasanaethau fod yn hygyrch ac i weithio mewn partneriaeth fel y gallant symud yn ddidrafferth drwy'r system heb orfod ailadrodd gwybodaeth. Mae angen i restrau aros fod yn fyrrach ac mae angen cefnogaeth wrth aros am gymorth.**

- **Mae'r Bartneriaeth Dechrau'n Dda yn ymateb drwy ddod â gwaith da presennol at ei gilydd i greu system sy'n cwmpasu plant a'u teuluoedd. Mae sampl bach o'r gwaith hwn yn cynnwys:**
- **Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi arwain ar atgyfeiriadau Pwynt Mynediad Sengl i gael pobl i'r lle iawn ar yr adeg iawn**
- **Mae Cymorth Cynnar Caerdydd wedi datblygu sgyrsiau 'Meddwl Gyda'n Gilydd', gan sicrhau bod pawb y mae angen iddynt fod yn rhan o'r gwaith cynllunio gwasanaethau yn cael eu cynnwys**
- **Mae Gwasanaethau Plant y Fro wedi mabwysiadu model Gwasanaeth Rhanbarthol y Glasoed i sicrhau bod y rhanbarth yn gweithio'n rhagweithiol ar flaen y system ofal i atal derbyniadau i ofal a chefnogi gwasanaethau adsefydlu**

**Bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i ehangu a datblygu er mwyn diwallu anghenion newidiol babanod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.**

# Y newyddion diweddaraf



## Lansio Gwefan Iechyd a Lles Emosiynol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) wedi datblygu gwefan newydd sbon, wedi'i chyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc i gynnig gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol ar les emosiynol ac iechyd meddwl. Mae'r holl wybodaeth ar y wefan wedi'i chreu'n arbennig gan bobl ifanc mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Yn rhan o'r prosiect, mae Bwrdd Ieuenctid y Bwrdd Iechyd a Promo Cymru wedi creu fideos i helpu plant a phobl ifanc i ddeall eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl. Ariannwyd y fideos yn garedig iawn gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

> *"Gwnaethom wir fwynhau cyfrannu at fideos a gwefan lles emosiynol ac iechyd meddwl newydd y Bwrdd Iechyd, a oedd yn cynnwys fideo TikTok a oedd yn hwyl i'w wneud. Mae'n bwysig iawn bod pobl yn gofalu am eu hunain a'r bobl o'u cwmpas; rydym yn gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i bobl."*
> Dywedodd Ellis, 15 oed, o Fwrdd Ieuenctid BIP Caerdydd a'r Fro

Ewch i'r wefan lles emosiynol ac iechyd meddwl

## Cynllunio ar gyfer fy nyfodol: Diweddariad ar y Protocol Pontio ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae cynllunio ar gyfer fy nyfodol yn offeryn sy'n helpu plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i gynllunio ar gyfer bod yn oedolion. Mae ysgolion yn gweithio gyda phobl ifanc o flwyddyn 9 ymlaen i nodi eu nodau a'u dyheadau. Maent yn gweithio gyda sefydliadau eraill i helpu i gynllunio sut y gellid cyflawni'r rhain. Mae'r gwaith cynllunio hwn hefyd yn helpu i nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, er mwyn gallu cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r cynnydd a wnaed eisoes yn cynnwys:

- Cwrs preswyl deuddydd ar sgiliau byw'n annibynnol a gynhaliwyd gan Wasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Addysg Caerdydd a'r Fro a choleg Caerdydd a'r Fro ar gyfer pobl ifanc sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth
- Rhaglen interniaeth a gefnogir am flwyddyn ar gyfer myfyrwyr ag anableddau dysgu sydd angen cyfleoedd datblygu sgiliau dwys, ailadroddus â chymorth i baratoi ar gyfer cyflogaeth. Mae hyn wedi'i leoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru

Bydd 'Cynllunio ar gyfer fy Nyfodol' yn cael ei lansio'n ffurfiol ar 14 Mawrth 2022 a cheir ymgynghoriad yn ei gylch ar hyn o bryd.

## Cefnogi Plant a Phobl Ifanc i Oresgyn Argyfwng: Model Adfer ar y Cyd

Mae'r Rhaglen Dechrau'n Dda yn datblygu gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen ymateb ar y cyd i wella ar ôl cyfnodau o drallod emosiynol sydd wedi arwain at aros yn yr ysbyty am gyfnod hir, neu sawl arhosiad yn yr ysbyty, ac na allant ddychwelyd adref. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cydblethu â darpariaethau presennol ac yn diwallu anghenion presennol plant a phobl ifanc mewn trallod/argyfwng emosiynol, y mae'n ofynnol i'w rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty. Bydd hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i gael cefnogaeth leol ac aros yn agos at eu teulu, eu ffrindiau a'u cymuned ar ôl cael eu rhyddhau.

## Cadw mewn cysylltiad

Cysylltwch â'r RPB

Dilynwch ni ar Twitter @RPB_CAV

Hoffwch ni ar Facebook @RPBCAV

Mae croeso i chi rannu'r diweddariad hwn gydag eraill y gallai fod ganddynt ddiddordeb yn ein gwaith.

CARDIFF CAERDYDD | GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board | VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG